The Royal Mint

Established *for* Tomorrow™

# 28 Mawrth 2017




## Y darn £1 newydd 12 ochr.
## Y darn arian mwyaf diogel yn y byd.

www.thenewpoundcoin.com

1. **12 ochr –** mae ei siâp gwahaniaethol yn ei wneud yn adnabyddadwy ar unwaith, hyd yn oed wrth gyffwrdd.

2. **Deufetelaidd –** fe'i gwneir o ddau fetel. Mae'r cylch allanol o liw aur (nicel-bres) a'r cylch mewnol o liw arian (aloi nicel-blatiog).

3. **Delwedd gudd –** mae ganddo ddelwedd fel hologram sy'n newid o symbol '£' i'r rhif '1' pan gaiff y darn ei weld o onglau gwahanol.




4. **Micro-lythrennu –** mae ganddo lythrennu bach iawn ar ymyl isaf fewnol dwy ochr y darn. Un bunt ar yr ochr flaen "pen" a'r flwyddyn gynhyrchu ar yr ochr gefn "cynffon", er enghriafft 2016 neu 2017.

5. **Ymylon rhigolog –** mae ganddo rigolau am yn ail ochr.

6. **Nodwedd diogelwch uchel cudd –** Adeiledir nodwedd diogelwch uchel i mewn i'r darn arian i'w warchod rhag ffugio yn y dyfodol.